

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Dathlu Treftadaeth



Ein camau gweithredu i gyflawni Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol
2020-2024

www.arfordirpenfro.cymru



Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast
National Park

Cynllun Gweithredu Archaeoleg

Dylid darllen y cynllun gweithredu hwn ar y cyd â [Chynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2020-2024](#). Mae'r cynllun yn tynnu sylw at y camau blaenoriaeth i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol sy'n ymwneud ag archaeoleg hyd at 2024. Bydd y cynllun yn cael ei adolygu bob blwyddyn.

Mae'r cynllun gweithredu yn cynnwys camau gweithredu y mae cyllid eisoes wedi'i gymeradwyo ar eu cyfer. Hefyd nodir camau gweithredu y byddai o bosibl angen adnoddau ar eu cyfer. Lle mae hyn yn wir, byddai unrhyw benderfyniad ynglŷn ag adnoddau yn cael ei wneud yn unol â gweithdrefnau safonol yr Awdurdod.

Prif arweinydd y cynllun gweithredu hwn yw Archaeolegydd Cymunedol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu faterion penodol sy'n ymwneud â'r cynllun gweithredu hwn, cysylltwch ag archaeology@pembrokeshirecoast.org.uk.

Ym mhob tabl, ategir y golofn statws gan sylwadau manylach ar y gweithgareddau a wnaed yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Dylid edrych ar hyn ar y cyd â'r Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau cyfredol.

a) Maes Blaenoriaeth: Ymgysylltu â'r Gymuned a'r Cyhoedd

- Yn cyfrannu at bolisi H1 a), b), c) a H2 a), b) a d) yn benodol o Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol.
- Yn cyfrannu at Amcanion Llesiant canlynol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol: Diwylliant (Ffrydiau Gwaith: Yr Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Archaeoleg Gymunedol, Ysbrydoliaeth a Phrofiad Hanesyddol, Partneriaeth a Chydweithredu ar Dreftadaeth), Cymunedau (Ffrwd Gwaith: Gweithgareddau a Phrosiectau Cymunedol sydd o fudd i'r Parc ac i'r Bobl) ac Amcanion Byd-eang (Ffrydiau Gwaith: Rhinweddau Arbennig: Ysbrydoliaeth ac Addysg, Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd).
- Yn cyfrannu at gamau gweithredu Yr Amgylchedd Hanesyddol a Newid Hinsawdd yng Nghymru: [Cynllun Addasu'r Sector](#) 2.1, 2.2, 3.1, 3.2, 5.1, 6.1, 6.2, 6.3, 7.3 a 7.4.

1. Cynllun Gwarcheidwaid Etifeddiath					
Diben: Nod y cynllun hwn yw ennyn diddordeb a chynnwys myfyrwyr mewn archaeoleg a threftadaeth yn y Parc Cenedlaethol ac yn y cyffiniau. Cyflwynir hyn drwy gyfres o sesiynau, gan gynnwys ymweliadau safle â henebion cyfarwydd a hefyd ffurfiau llai amlwg o dreftadaeth.					
Canlyniad: O ganlyniad i'r rhaglen, bydd gan fyfyrwyr fwy o werthfawrogiad o archaeoleg a threftadaeth a hefyd y materion sy'n effeithio arnynt. Yn y pen draw, bydd hyn yn arwain at fwy o siawns o ddiogelu ein treftadaeth. Mae'r rhaglen hon hefyd yn arwain at lefelau uwch o hygyrchedd i fyfyrwyr na fyddai fel arall yn gallu ymgysylltu ag archaeoleg a threftadaeth.					
Gweithredu/Menter	Amserlen	Arweinydd yr Awdurdod PC	Adnoddau	Statws	Gweithgaredd 2020/21
Fel rheol, cynnal y rhaglen gyda hyd at dri sefydliad addysgol yn flynyddol.	Bydd y rhaglen yn rhedeg dros gyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Archaeolegydd Cymunedol	Amser swyddogion, amser swyddogion o dimau eraill ac adnoddau, offer a deunydd archaeoleg.	Ar y gweill.	Oherwydd COVID-19 ataliwyd y rhaglen i raddau helaeth, ond cyflwynwyd nifer o fideos â thasgau i un ysgol. Roedd hyn wedi galluogi'r ysgol i ddysgu am archaeoleg yn y Parc Cenedlaethol ac ymgysylltu â'r dirwedd hon.
Gwerthuso'r cynllun peilot sydd wedi bod yn rhedeg rhwng 2018 a 2021 a datblygu'r cynllun fel un o linyddau addysgol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol i ategu'r cwricwlwm cenedlaethol. Y gwerthuso i gynnwys ymgynghori â sefydliadau addysgol yn Sir Benfro i benderfynu sut fyddent yn dymuno i'r Cynllun gael ei ddatblygu.	I'w werthuso a'i ddatblygu yn unol â'r amserlen ar gyfer datblygu darpariaeth addysgol yn fwy eang yn yr Awdurdod ac o fewn cyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Archaeolegydd Cymunedol	Amser swyddogion, amser swyddogion o adrannau eraill a'r sefydliadau addysgol sy'n rhan o'r cynllun.	Heb ddechrau.	Rhagwelir y bydd y cynllun yn un o nifer o linyddau y bydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn cynnig eu cyflwyno i ysgolion. Fel y cyfryw nid oedd y gwerthuso wedi cychwyn gan fod angen i'r gwaith ategu a chyd-ddigwydd â datblygu darpariaeth addysgol yn fwy eang.

2. Prosiectau Archaeoleg Cymunedol					
Diben: Cefnogi prosiectau archaeoleg a threftadaeth sy'n cael eu harwain gan sefydliadau eraill, cymunedau a/neu aelodau o'r cyhoedd. Yn cynnwys cynorthwyo gyda'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r cyfryw brosiectau.					
Canlyniad: Cynyddu ymgysylltiad y cyhoedd ag archaeoleg a threftadaeth yn fwy eang yn y Parc Cenedlaethol ac yn y cyffiniau. Helpu i rymuso cymunedau i ymgysylltu'n frwd ag asedau archaeolegol a threftadaeth yn eu hardaloedd, a'u rheoli. Yn ogystal, bydd cefnogi prosiectau archaeoleg cymunedol yn arwain at reolaeth cydnerth, gwell gweithio mewn partneriaeth a diogelu henebion.					
Gweithredu/Menter	Amserlen	Arweinydd yr Awdurdod PC	Adnoddau	Statws	Gweithgaredd 2020/21

Rhoi cymorth i hyd at dri prosiect archaeoleg gymunedol y flwyddyn.	Bydd prosiectau yn derbyn cymorth wrth iddynt ddigwydd dros gyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Archaeolegydd Cymunedol	Amser swyddogion, amser swyddogion o adrannau eraill, y gyllideb archaeoleg ac offer a deunydd archaeoleg.	Ar y gweill.	Mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi rhoi cymorth i'r prosiect Ein Cymdogaeth Werin gan gynnwys mynychu nifer o gyfarfodydd grŵp llywio. Rhoddwyd cymorth i Gyngor Cymuned Nanhyfer ar eu gwaith ar Gastell Nanhyfer. Rhoddwyd cymorth i Ganolfan Brynberian a chynghor ar safleoedd archaeolegol y Preseli. Mae'r gwaith datblygu a chynllunio ar y gweill ar gyfer prosiect LiDAR archaeoleg y Preseli fydd yn cychwyn fis Mehefin 2021. Bydd elfen o wyddoniaeth gymunedol/dinasyddion i'r prosiect hwn. Cafodd gweithgaredd ar y prosiectau cymunedol eraill ei atal/ei atal dros-dro oherwydd COVID-19, megis y prosiect Cysylltiadau Hynafol.
Datblygu gwaith cloddio a phrosiectau cymunedol mewn partneriaeth â sefydliadau perthnasol eraill.	Bydd gwaith cloddio a phrosiectau cymunedol ar y cyd yn cael eu datblygu wrth iddynt ddigwydd dros gyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Archaeolegydd Cymunedol	Amser swyddogion, amser swyddogion o adrannau eraill, y gyllideb archaeoleg ac offer a deunydd archaeoleg.	Ar y gweill.	Oherwydd COVID-19 cafodd y gwaith cloddio cymunedol ei atal. Gobeithio y bydd y gwaith a ohiriwyd yn digwydd yn 2021/22.

3. Gweithgareddau a Digwyddiadau Archaeolegol

Diben: Rhoi cyfle i gymunedau yn y Parc Cenedlaethol a'r cyffiniau, ac yn ehangach, cyfle i'r cyhoedd ymgysylltu ag archaeoleg a threftadaeth drwy weithgareddau a digwyddiadau, gan gynnwys y Diwrnod Archaeoleg blynyddol, teithiau cerdded tywys a sgwrsiau.

Canlyniad: Cynyddu ymgysylltiad y cyhoedd ag archaeoleg a threftadaeth yn y Parc Cenedlaethol gan gynnwys mwy o ymwybyddiaeth, cyfranogiad a diddordeb yn y materion hyn.

Gweithredu/ Menter	Amserlen	Arweinydd yr Awdurdod PC	Adnoddau	Statws	Gweithgaredd 2020/21
Fel rheol, darparu a/neu gynorthwyo teithiau cerdded tywys ar archaeoleg/ treftadaeth ar draws ardal y Parc Cenedlaethol bob blwyddyn, gan gynnwys gweithio gyda thimau eraill yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a darparwyr allanol i gynnal y teithiau hyn.	Cynigir teithiau cerdded fel rhan o raglen flynyddol dros gyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Archaeolegydd Cymunedol	Amser swyddogion, amser swyddogion o adrannau eraill a gwirfoddolwyr. Yn ogystal, yr adnoddau sydd eu hangen i gynnal y digwyddiad, megis hurio lleoliad a/neu gerbyd ac unrhyw ddeunydd arall. Hefyd, amser ac adnoddau sefydliadau allanol lle bo hynny'n gymwys.	Ar y gweill.	Oherwydd COVID-19 cafodd y teithiau cerdded tywys eu hatal. Serch hynny trefnwyd a chynhaliwyd digwyddiad rhithiol di-dâl yn ystod mis Awst 2020. Roedd y digwyddiad yn amlygu nodweddion archaeolegol yn y Parc Cenedlaethol ac yn rhoi gwybod i'r bobl am y gwaith a wneir gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol mewn perthynas ag archaeoleg.
Cyflwyno'r Diwrnod Archaeoleg blynyddol.	Cynhelir y diwrnod bob mis Tachwedd a bydd yn	Archaeolegydd Cymunedol	Amser swyddogion, amser swyddogion o adrannau eraill, adnoddau archaeoleg, amser	Ar y gweill.	Oherwydd COVID-19, cyflwynwyd Diwrnod Archaeoleg 2020 yn rhithiol a bu'n llwyddiant mawr. Mae cynnwys y diwrnod ar gael yn:

	parhau i gael ei gynnal dros gyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).		staff PLANED ac adnoddau ac amser cyfranwyr. Yn ogystal, hurio lleoliad a llwyfannau digidol a hefyd unrhyw ddeunydd cysylltiedig ar gyfer y diwrnod.		https://www.youtube.com/channel/UCm yDlzMf-5-pTebMDX8GoYQ Gwerthuswyd y diwrnod, a manteisir ar y gwersi a ddysgwyd wrth drefnu'r diwrnodau yn y dyfodol.
Arddangos archaeoleg a threftadaeth y Parc Cenedlaethol mewn sioeau a/neu drwy sgysiau hyd at bedair gwaith y flwyddyn.	I'w gyflwyno yn flynyddol a thrwy gydol cyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Archaeolegydd Cymunedol	Amser swyddogion, amser swyddogion o adrannau eraill ac adnoddau a deunydd archaeoleg (lle bo'n gymwys).	Ar y gweill.	Fel y nodir uchod, cynhaliwyd digwyddiad fis Awst 2020 oherwydd bod y teithiau cerdded tywys wedi'u hatal. Cyflwynwyd y sgws yn rhithiol i Gymdeithas Gymraeg Reading a'r Cylch. Cyflwynwyd y sgws yn rhithiol yn ystod digwyddiad Fforwm Arfordirol Sir Benfro.
Datblygu gwybodaeth a dehongli digidol a ffisegol am archaeoleg a threftadaeth y Parc Cenedlaethol wrth i gyfleoedd godi.	I'w gyflawni o fewn cyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli wrth i gyfleoedd godi (2020 – 2024).	Archaeolegydd Cymunedol	Amser swyddogion, amser swyddogion o adrannau eraill ac adnoddau a deunydd archaeoleg. Amser ac adnoddau sefydliadau allanol (lle bo'n gymwys).	Ar y gweill.	Tudalen Gwarchod Treftadaeth wedi'i datblygu. Ar gael yn: https://www.pembrokeshirecoast.wales/about-the-national-park/archaeology/heritagewatch/ Datblygwyd gwe-dudalen i alluogi'r cyhoedd gofrestru i gael gwybodaeth am ddigwyddiadau a gweithgareddau archaeoleg sy'n digwydd yn y Parc Cenedlaethol. Gellir cyrchu'r gwe-dudalen drwy'r ddolen ganlynol: Rhestr Bostio Archaeoleg - Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Comisiynwyd prosiect i gynhyrchu modelau digidol o arteffactau archaeolegol. Comisiynwyd prosiect i gynhyrchu deunydd dehongli newydd ar gyfer Caer yr Hen Gastell, Abergwaun. Mae hyn yn cynnwys model digidol o'r gaer yn ystod oes Napoleon, a delweddau o'r defnydd a wnaed ohoni yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Yn ogystal, archwilir y posibiliadau o ddefnyddio technoleg realiti estynedig.

b) Maes Blaenoriaeth: Diogelu Henebion ac Ymchwil Archaeolegol

- Yn cyfrannu at bolisi H1 a), b), c), g) ac i) yn benodol o Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol.
- Yn cyfrannu at Amcanion Llesiant canlynol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol: Diwylliant (Ffrydiau Gwaith: Yr Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Archaeoleg Gymunedol, Partneriaeth a Chydweithredu ar Dreftadaeth), ac Amcanion Byd-eang (Ffrydiau Gwaith: Rhinweddau Arbennig: Ysbrydoliaeth ac Addysg, Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd).
- Yn cyfrannu at gamau gweithredu Yr Amgylchedd Hanesyddol a Newid Hinsawdd yng Nghymru: Cynllun Addasu'r Sector 2.1, 2.2, 3.1, 3.2, 3.3, 5.1, 6.1, 6.2, 6.3, 7.1, 7.3 a 7.4.

1. Diogelu Henebion Archaeolegol					
Diben: Gwella a diogelu cyflwr yr henebion yn y Parc Cenedlaethol.					
Canlyniad: Bod cyflwr yr henebion yn y Parc Cenedlaethol yn cael ei wella a'i ddiogelu'n well drwy ddatblygu trefn effeithiol o reoli.					
Gweithredu/Menter	Amserlen	Arweinydd yr Awdurdod PC	Adnoddau	Statws	Gweithgaredd 2020/21
Llunio cronfa ddata ar gyflwr presennol henebion rhestredig yn y Parc Cenedlaethol.	I'w gwblhau yn chwarter cyntaf 2020-2021.	Archaeolegydd Cymunedol	Amser swyddogion a mewnbwn gan swyddogion perthnasol Cadw a gwybodaeth.	Wedi'i gwblhau.	Cronfa ddata o henebion rhestredig y Parc Cenedlaethol wedi'i chreu.
Datblygu ffurflen fonitro ar gyfer asesu cyflwr henebion yn ystod ymweliadau safle, gan gynnwys	I'w ddatblygu a'i weithredu o fewn cyfnod	Archaeolegydd Cymunedol	Amser swyddogion a mewnbwn gan Cadw a'r rhai sy'n defnyddio'r system gan gynnwys gwirfoddolwyr. Hefyd, defnyddio arolwg 123.	Wedi'i gwblhau.	Ffurflen gyflwyno ar-lein wedi'i datblygu a'i threalu gan y Gwirfoddolwyr Treftadaeth.

ffurflen gyflwyno ar-lein.	cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).				
Recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr a staff yr Awdurdod i gynnal ymweliadau monitro henebion hygyrch.	I'w ddatblygu a'i weithredu o fewn cyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Archaeolegydd Cymunedol	Amser swyddogion, ac amser swyddogion o adrannau eraill. Adnoddau a deunydd archaeoleg, gan gynnwys offer i gynorthwyo gwirfoddolwyr. Amser gwirfoddolwyr.	Wedi'i gwblhau.	Dwy sesiwn gyhoeddus rithiol wedi'u cynnal i gyflwyno gwybodaeth am archaeoleg yn y Parc Cenedlaethol a gwybodaeth am y cyfle i fonitro henebion rhestredig. Gwirfoddolwyr wedi'u recriwtio i ymweld â safleoedd hygyrch ar draws y Parc Cenedlaethol a monitro eu cyflwr.
Clustnodi safleoedd sy'n hygyrch i'r cyhoedd a'u dyrannu i wirfoddolwyr i ymweld â hwy i ddarganfod cyflwr yr henebion a chlustnodi'r materion sydd angen talu sylw iddynt.	I'w gwblhau o fewn cyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Archaeolegydd Cymunedol	Amser swyddogion ac amser swyddogion o adrannau eraill. Adnoddau a deunydd archaeoleg, gan gynnwys offer i gynorthwyo gwirfoddolwyr. Amser gwirfoddolwyr.	Wedi'i gwblhau.	Safleoedd hygyrch i'r cyhoedd wedi'u clustnodi a'u dyrannu i'r gwirfoddolwyr a recriwtiwyd.
Gwirfoddolwyr i gyflwyno adroddiadau ymweliad safle gan gynnwys unrhyw faterion a glustnodwyd.	I'w cyflwyno'n barhaus yn ystod cyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Archaeolegydd Cymunedol	Amser swyddogion, amser gwirfoddolwyr ac adnoddau perthnasol i gyflwyno adroddiadau.	Ar y gweill.	Roedd gwirfoddolwyr treftadaeth wedi ymweld â dros hanner y safleoedd sy'n hygyrch i'r cyhoedd ac wedi cyflwyno adroddiadau.
Asesu'r adroddiadau a gyflwynwyd, a rhaglen waith yn ei lle i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.	I'w gyflawni yn barhaus yn ystod cyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Archaeolegydd Cymunedol	Amser swyddogion, amser swyddogion o adrannau eraill ac amser gwirfoddolwyr a'r defnydd o adnoddau a deunydd archaeoleg. Hefyd amser sefydliadau allanol perthnasol a chontractwyr arbenigol (lle bo'n gymwys).	Ar y gweill.	Cafodd nifer cyfyngedig o'r adroddiadau a gyflwynwyd eu hasesu, a rhoddwyd camau gweithredu yn eu lle i fynd i'r afael â'r materion a glustnodwyd.

2. Cynllun Gwarchod Treftadaeth

Diben: Diogelu asedau archaeolegol, hanesyddol a threftadaeth (gan gynnwys tirweddau) yn y Parc Cenedlaethol ac yn uniongyrchol gyfagos rhag difrod bwriadol ac anfwriadol.

Canlyniad: Bod nifer yr asedau archaeolegol, hanesyddol a threftadaeth (gan gynnwys tirweddau) yn y Parc Cenedlaethol ac yn uniongyrchol gyfagos i'r Parc sy'n cael eu difrodi'n fwriadol ac yn anfwriadol, yn gostwng. Mae mesurau diogelu ac adrodd hefyd yn cael eu cryfhau.

Gweithredu/Menter	Amserlen	Arweinydd yr Awdurdod PC	Adnoddau	Statws	Gweithgaredd 2020/21
Datblygu a gweithredu mecanwaith adrodd ar gyfer y cynllun.	I'w weithredu dros gyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Archaeolegydd Cymunedol	Amser swyddogion, amser swyddogion o adrannau eraill a sefydliadau partner allweddol.	Ar y gweill.	Gwe-dudalen ar wefan y Parc Cenedlaethol wedi'i datblygu a'i chynhyrchu, gan gynnwys ffurflen adrodd. Gwe-dudalen ar gael yn https://www.pembrokeshirecoast.wales/about-the-national-park/archaeology/heritagewatch/ Hefyd diweddarwyd tudalen Facebook y cynllun gan gynnwys cysylltu â'r we-dudalen. Tudalen Facebook ar gael yn: Gwarchod Treftadaeth - HeritageWatch Facebook

Darparu hyfforddiant ar faterion treftadaeth sy'n gysylltiedig â'r cynllun.	I'w gyflawni yn barhaus dros gyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Archaeolegydd Cymunedol	Amser swyddogion, amser swyddogion sefydliadau partner allweddol, amser gwirfoddolwyr. Hefyd y defnydd o adnoddau perthnasol i ddarparu hyfforddiant gan gynnwys lleoliad neu'r cyfatebol.	Ar y gweill.	Cyflwynwyd sesiwn hyfforddi ar droseddau treftadaeth yn rhithiol i Gymru gyfan oedd yn cynnwys sawl heddlu, Cadw, Historic England, Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru a phob un o'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r sesiwn ar y dudalen Facebook.
Datblygu a gweithredu mecanwaith ar gyfer patrolio/ diogelu asedau sydd mewn perygl.	I'w weithredu dros gyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Archaeolegydd Cymunedol	Amser swyddogion, amser swyddogion o adrannau eraill, amser sefydliadau partner allweddol a gwirfoddolwyr.	Ar y gweill.	Mecanwaith adrodd wedi'i ddatblygu. Dolenni wedi'u sefydlu â chysylltiadau allweddol - Cadw, Heddlu Dyfed-Powys. Cronfa ddata o ddigwyddiadau wedi'i chreu. Patrolau rheolaidd wedi'u sefydlu.
Gwneud gwaith adfer ar asedau yr effeithir arnynt.	I'w weithredu dros gyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024) yn ôl y gofyn.	Archaeolegydd Cymunedol	Amser swyddogion, amser swyddogion o adrannau eraill, amser sefydliadau partner allweddol a gwirfoddolwyr. Y defnydd o ddeunyddiau ac adnoddau i gyflawni'r gwaith.	Ar y gweill.	Materion a glustnodwyd yn cael cyhoeddusrwydd. Pwysigrwydd adrodd ar y materion hyn wedi'i ail-gadarnhau gyda chydweithwyr, y cymunedau a'r cyhoedd. Cynlluniau gweithredu yn eu lle i fynd i'r afael â'r materion ar y safleoedd hynny yr effeithiwyd arnynt.
Rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun drwy ddefnyddio datganiadau i'r wasg a'r dudalen Facebook.	I'w gyflawni yn barhaus dros gyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Archaeolegydd Cymunedol	Amser swyddogion, amser swyddogion o adrannau eraill a sefydliadau partner allweddol.	Ar y gweill.	Y digwyddiadau troseddau treftadaeth a materion perthynol yn cael cyhoeddusrwydd drwy'r dudalen Facebook a drwy'r partneriaid allweddol. Cyhoeddir patrolau ar y dudalen Facebook.

3. Ymchwil Archaeolegol

Diben: Cefnogi a chynnal gwaith ymchwil archaeolegol sy'n cynnwys technegau megis cloddio ac arolygon i gynyddu dealltwriaeth o archaeoleg, hanes a threftadaeth yn y Parc Cenedlaethol.

Canlyniad: Archaeoleg, hanes a threftadaeth yn cael eu deall yn well yn y Parc Cenedlaethol, gan arwain at well rheolaeth o'r nodweddion hyn a'r tirweddau cysylltiedig. Yn ogystal, y cyhoedd yn mwynhau ac yn ymgysylltu fwyfwy ag ardal y Parc Cenedlaethol.

Gweithredu/Menter	Amserlen	Arweinydd yr Awdurdod PC	Adnoddau	Statws	Gweithgaredd 2020/21
Cefnogi gwaith cloddio archaeolegol sy'n digwydd yn y Parc Cenedlaethol hyd at uchafswm o bedwar.	I'w weithredu dros gyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Archaeolegydd Cymunedol	Amser swyddogion, amser swyddogion o adrannau eraill, amser gwirfoddolwyr ac offer archaeoleg, deunydd a chymorth ariannol. Hefyd amser ac adnoddau sefydliadau allanol.	Ar y gweill.	Oherwydd COVID-19 cafodd y gwaith cloddio oedd wedi'i gynllunio ei atal dros dro.
Cyflawni a/neu gomisiynu gwaith ymchwil yn y Parc Cenedlaethol (lle bo hynny'n briodol). Gan gynnwys ymgynghori â	I'w weithredu dros gyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024) lle bo'n briodol.	Archaeolegydd Cymunedol	Amser swyddogion, amser swyddogion o adrannau eraill, amser gwirfoddolwyr ac offer	Ar y gweill.	Y gwaith cynllunio a datblygu prosiect LiDAR Archaeoleg y Preseli oedd fod i ddechrau mis Mehefin 2021, wedi parhau. Defnyddir LiDAR i wella, clustnodi a dadansoddi nodweddion archeolegol yn y dirwedd. Mae'r prosiect yn rhan o Gynllun Rheoli Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

sefydliadau allanol perthnasol i glustnodi blaenoriaethau ymchwil a'r Fframwaith Ymchwil ar gyfer Archaeoleg Cymru.			archaeoleg, deunydd ac adnoddau. Hefyd amser ac adnoddau sefydliadau allanol.		Yr Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi cofrestru gyda'r Fframwaith Ymchwil ar gyfer Archaeoleg Cymru.
---	--	--	---	--	---

4. Polisi Cenedlaethol

Diben: Ymgysylltu a dylanwadu ar ddatblygu polisi cenedlaethol ar faterion yr amgylchedd hanesyddol sy'n berthnasol i'r Parc.

Canlyniad: Bod buddiannau'r amgylchedd hanesyddol yng nghyd-destun y Parc Cenedlaethol wedi'i ystyried o fewn y polisiau cenedlaethol perthnasol.

Gweithredu/Menter	Amserlen	Arweinydd yr Awdurdod PC	Adnoddau	Statws	Gweithgaredd 2020/21
Datblygu canllawiau mewn perthynas ag adrannau perthnasol o'r cynllun rheoli.	I'w gyflawni yn barhaus dros gyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Archaeolegydd Cymunedol	Amser swyddogion.	Yn ôl y gofyn.	Wedi rhoi cyngor mewn perthynas â datblygu canllawiau ar gyfer defnyddio lleoedd cysegredig.
Ymateb i ymgynghoriadau perthnasol ar ddeddfwriaeth a pholisiau ar lefel genedlaethol.	I'w gyflawni yn barhaus dros gyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Archaeolegydd Cymunedol	Amser swyddogion.	Parhaus.	Wedi rhoi mewnbyn i'r gwaith cyfredol gan Lywodraeth Cymru ar gydgrynhoi Deddfau Amgylchedd Hanesyddol Cymru. Wedi cyflwyno sylwadau ar yr amgylchedd hanesyddol i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Amaethyddiaeth (Cymru).
Cymryd rhan mewn gweithgorau strategol, megis Grŵp Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru a Grŵp Amgylchedd Hanesyddol Parciau Cenedlaethol y DU.	I'w gyflawni yn barhaus dros gyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Archaeolegydd Cymunedol	Amser swyddogion.	Ar y gweill.	Cadeiriwyd Cymdeithas Swyddogion Archaeolegol Llywodraeth Leol: Cymru. Cyd-hwyluso Fforwm Treftadaeth Sir Benfro gyda PLANED. Wedi cymryd rhan gyda Llywodraeth Cymru yn y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol. Wedi cymryd rhan gydag is-grŵp Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru ar Newid Hinsawdd. Wedi cymryd rhan gyda Phwyllgor Cymru o Gyngor Archaeoleg Prydain. Wedi cymryd rhan gyda Grŵp Amgylchedd Hanesyddol Parciau Cenedlaethol y DU.